**COFNODION O GYFARFOD CYNGOR TREF BAE COLWYN A GYNHALIWYD YN SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y DREF, FFORDD RHIW, BAE COLWYN, NOS LUN, 22AIN HYDREF 2018 AM 6.30 P.M.**

**YN BRESENNOL:** Maer y Dref, Y Cynghorydd S Williams (Cadeirydd)
Y Cynghorwyr Mrs G Baker; B. Barton, N. Bastow, C. Brockley, Mrs H. Fleet; D. Howcroft, C. Hughes, M.A. Jones, Mrs M Jones; A. Kealey, A Khan, C. Matthews, A. Pearson, J Pearson, P Richards, M. Tasker.

**SWYDDOG:** Mrs C. J. Earley, Clerc y Dref

**HEFYD YN BRESENNOL:** Arolygydd Dosbarth Julie Sheard, Heddlu Gogledd Cymru
Cynghorwyr Sir C. Carlisle, B. Cossey, B. Squire, R.Parry.

**216/18 Croeso ag Ymddiheuriadau am Absenoldeb:**

Croesawyd yr Aelodau a'r gwesteion i'r cyfarfod gan y Maer a chyflwynwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr D. Bradley, Mrs G. Campbell, A Mason, H. Meredith, M. Pickard, Mrs K. Swindon, M. Worth.

**217/18 Cyhoeddiadau gan y Maer:**

Llongyfarchwyd pawb a fu'n gysylltiedig gyda neu a gefnogodd Pwyllgor Colwyn yn ei Blodau gan y Maer, yn dilyn ei llwyddiant diweddar o ennill Aur RHS am ymgais eleni. Fe nodwyd mai hwn oedd y tro cyntaf i'r dref ennill Aur yng nghystadleuaeth Prydain yn ei Blodau

**218/18 Datgan Cysylltiadau:**

Atgoffwyd yr aelodau o'r angen iddynt ddatgan unrhyw gysylltiad personol a / neu gysylltiad sy'n rhagfarnu, a natur y fath gysylltiadau. Ni ddatganwyd dim.

**219/18 Ymwelwyr a'r Cyngor:**

**a)** Croesawyd Arolygydd Dosbarth Julie Sheard, Heddlu Gogledd Cymru i'r cyfarfod gan y Maer er mwyn iddi gael annerch y Cyngor am ystadegau troseddau a materion yn achosi pryder yn lleol. Diolchodd yr Arolygydd Sheard am y gwahoddiad i fod yn bresennol a rhoddodd cyflwyniad byr am ei chefndir plismona. Cyfeiriodd at y newidiadau arwyddocaol o flaenoriaethau plismona dros yr wyth mlynedd diwethaf, gyda llawer mwy o ganolbwyntio rŵan ar ymdrin â'r cynnydd yn nhrais yn y cartref, troseddau trefnedig, troseddau casineb, caethwasiaeth cyfoes a byrgleriaeth. Mae'n llawer anoddach i adnabod rhai o'r troseddau hyn ac mae adnoddau'r Llu yn llawer llai o'u cymharu â deg mlynedd yn ôl. Mae hyn oll wedi golygu gostyngiad mewn adnoddau ar gyfer timau plismona cymunedol i'r fath raddau mai un CBM yn unig sydd gennym, gyda chefnogaeth tîm o PCSO ar gyfer ardal Bae Colwyn.

Mae mwy o alw hefyd ar y Llu yn gyffredinol oherwydd y cynnydd yn y defnydd o gyffuriau / materion yn ymwneud ac iechyd meddwl / pobl fregus. Bydd y bobl hyn yn aml yn dod at yr heddlu mewn angen i gael eu harwain i'r cyfeiriad cywir ac i gael y gefnogaeth briodol. Mae'r mwyafrif o droseddau yn parhau i gael ei cyflawn gan leiafrif o bobl ac nid yw sefydliadau adfer yn ymdrin â phroblemau hirdymor y rhai sy'n agored i

niwed. Terfynodd yr Arolygydd Sheard trwy ddweud ei bod yn falch o'r cyfle o rannu'r wybodaeth hwn fel y gellir rheoli disgwyliadau: ni all y timau plismona cymdogol bod mor weladwy ac y buont deg mlynedd yn ôl. Er hyn, mae Bae Colwyn yn dal i fod yn lle braf i fyw a gweithio ynddo.

Cafwyd sesiwn byr o holi ag ateb yn dilyn y cyflwyniad gyda chwestiynau yn ymwneud a: maint y gostyngiad yn y timau plismona cymdogol (yn 2010 roedd 14 CBM yn yr ardal, yn cynnwys Mochdre a Llysfaen ac erbyn hyn mae wedi lleihau i 3 gydag un ohonynt yn canolbwyntio ar droseddau trefnedig); cyflymdra trafnidiaeth ar yr A55; dulliau o ymdrin â chaethwasiaeth cyfoes (dull o dargedu mewn cydweithrediad a'r gwasanaeth mewnfudo); cais am blismona mwy gweladwy a gwasgaru pobl fregus rhag ymgasglu yng nghanol y dref oherwydd fe all hyn annog pobl i beidio cefnogi busnesau lleol (cafwyd sicrhad bod hyn yn cael sylw a bydd adnoddau yn canolbwyntio ar y lleoedd sydd mwyaf angen); pam nad yw camerâu cyflymdra yn cael eu defnyddio ar yr A55; canlyniadau cadarnhaol gan yr Heddlu pan dderbynnir gwybodaeth leol; yr angen i gasglu gwybodaeth o amryw o ffynonellau cyn gellir gweithredu; a oes gan yr Heddlu digon o adnoddau i ymdrin â'r cynnydd mewn trais yn y cartref.

Diolchwyd i'r Arolygydd Sheard am fod yn bresennol a gadawodd y cyfarfod.

**b) Cydlynu gyda'r Cyngor Sir (CBSC):**

Croesawyd y Cynghorwyr Sir i'r cyfarfod gan y Maer, a chyflwynodd y Cynghorydd B. Cossey adroddiad am y pwysedd ariannol a wynebir gan y Cyngor Sir ar hyn o bryd. Roedd yr adroddiad yn ymdrin â phrif ffynonellau incwm a gwariant y Cyngor Sir. Eglurwyd hefyd yr effaith gall gostyngiad yn y grant cefnogi refeniw gan Lywodraeth Cymru a chostau cynyddol codiadau cyflog blynyddol y staff cael ar y gyllideb flynyddol. Bu'r Cyngor Sir yn paratoi am gytundeb gwastad gan Lywodraeth Cymru am 2019/20, ond cafwyd gwybodaeth yn ddiweddar mai gostyngiad net o 1% (cyfystyr a thoriad o £1.5m) bydd yn ei dderbyn. Byddai cynnydd o 5% yn y dreth cyngor yn codi oddeutu £3m, ond yr amcangyfrif presennol o'r diffyg ariannol am 2019/20 yw oddeutu £16.5m. Yn 2018/19, bwriadwyd defnyddio £3.28m o'r arian wrth gefn i ddod at gyllideb gytbwys. Nid oes ddigon o arian wrth gefn ar gyfer unrhyw beth yn y flwyddyn nesaf. Y dewisiadau sydd ar ôl yw cynyddu incwm (h.y. codi'r dreth cyngor ac / neu godi tâl am wasanaethau) ac / neu leihau costau, h.y. torri'r gwasanaethau. Mae'n anorfod bydd rhaid torri rhai gwasanaethau er mwyn cael cyllideb gytbwys. Nid yw hyn byth yn boblogaidd - mae pob gwasanaeth yn bwysig i rywun. Ar hyn o bryd mae trafodaethau yn canolbwyntio ar doriadau o 4% yng nghyllidebau gwasanaethau cymdeithasol ag addysg a 7% am wasanaethau eraill megis ERF, ynghyd a chodiad o 11% yn y Dreth Cyngor.

Terfynodd y Cynghorydd Cossey ei gyflwyniad trwy atgoffa bod y Cyngor Tref yn endid hollol ar wahân, ac felly ni ddylent deimlo unrhyw bwysedd i ymgymryd â pharatoi'r gwasanaethau hynny bydd yn cael eu torri gan GBSC os nad ydynt yn cyd-fynd a blaenoriaethau'r Cyngor Tref ei hun.

Dilynwyd y cyflwyniad gyda sesiwn byr o holi ag ateb, gyda chwestiynau yn ymwneud a: a yw'r toriad o 1% yr un i holl Siroedd Cymru (na - mae amryw o elfennau yn gynwysedig yn y fformwla cyllido a bydd rhai Cynghorau yn derbyn mwy); faint bydd y Cyngor yn arbed os am barhau gyda chynlluniau i dorri cludiant rhad ag am ddim i rai dros 16 mlwydd oed (£420k, ond gall pobl ieuanc sy'n derbyn prydau ysgol yn rhad ac am ddim parhau i fod yn gymwys am gludiant rhad ac am ddim).

Diolchwyd i'r Cynghorwyr Sir am fod yn bresennol i gyflwyno'r adroddiad.

**220/18 Cofnodion:**

a ***Penderfynwyd cymeradwyo a llofnodi cywirdeb cofnodion cyfarfod diwethaf y Cyngor a gynhaliwyd ar 3ydd Medi 2018.***

b. ***Penderfynwyd derbyn copi o gofnodion y cyfarfodydd canlynol:***
***i. Pwyllgor Amcanion Cyffredinol a Chynllunio ar 18fed Medi 2018.***
***ii. Pwyllgor Polisi a Chyllid a gynhaliwyd ar 3ydd Hydref 2018 (drafft)***
***iii Pwyllgor Amcanion Cyffredinol a Chynllunio a gynhaliwyd ar 9fed Hydref 2018 (drafft.)***

**221/18 Materion yn Codi o'r Cofnodion Hynny :**

**a) Cofnod 165/18 – Cydlyniad Anffurfiol gyda'r Heddlu:**

Cyflwynodd y Clerc adroddiad byr ar lafar am y cyfarfod a gynhaliwyd yn gynharach heno gyda'r Arolygydd Julie Sheard a Rhingyll Plismona Cymdogol Lee Openshaw. Cafwyd trafodaeth ar sut i reoli disgwyliadau ac efallai gall y cynghorwyr lleol (a thrigolion) cyfarfod aelodau o'u tîm plismona lleol i drafod unrhyw faterion sy'n achosi pryder. Cytunwyd gan y rhai oedd yn bresennol mai'r ffordd orau i wneud hyn oedd yn ystod y sesiynau galw i mewn rheolaidd gyda'r PCSO a gynhelir yn rheolaidd ym mhob cymuned (e.e. boreau coffi yn Llandrillo yn Rhos, yn llyfrgell Bae Colwyn, digwyddiadau / boreau coffi yng Nghanolfan Cymunedol Bae Colwyn Uchaf ac yng nghyfarfodydd agored Cymdeithas Trigolion Hen Golwyn). Fe nodwyd bod un deg saith o sesiynau o'r fath wedi cael eu cynnal ar draws yr ardal ers Gorffennaf.

***Penderfynwyd gofyn i'r manylion am ddyddiadau a lleoliadau'r sesiynau hyn cael eu rhannu gyda'r Cyngor Tref mor fuan ag sy'n bosibl, fel gall yr Aelodau lleol fod yn bresennol os oes angen iddynt ac fel y gall y Cyngor Tref helpu gyda'r cyhoeddusrwydd trwy'r wefan.***

***Fe benderfynwyd ymhellach i ofyn i'r Arolygydd Dosbarth parhau i fynychu cyfarfodydd y Cyngor llawn, o leiaf unwaith y flwyddyn, i roi cyflwyniad am y blaenoriaethau ar yr adeg / materion oedd yn achosi pryderon.***

**b Cofnodion 151/18 a 167/18(b): Cynllun Gwaith Amcan 8.1 – Cynlluniau Cynefin:**

**(i)** Fe nodwyd bod Pecyn Gwaith terfynol y Cynllun Cynefin wedi cael ei gymeradwyo erbyn hyn gan GBSC (ar gael gan y Clerc ar gais).

**(ii)** Er mwyn symud ymlaen i ddatblygu'r Cynllun Cynefin gyda'r gymuned leol, gofynnwyd i'r Aelodau ystyried penodi aelodau i ddechrau ar y gwaith o sefydlu Grŵp Llywio Cynllun Cynefin (argymhellwyd hyn gan Bwyllgor Amcanion Cyffredinol a Chynllunio i fod yn un Aelod am bob Ward). Gofynnodd y Maer am enwebiadau o gynrychiolydd o bob Ward a derbyniwyd yr enwebiadau canlynol:
Ward Dinarth: Cynghorydd Jeff Pearson
Ward Rhos: Cynghorwyr Glenys Baker a Hannah Fleet
Ward Rhiw: Cynghorydd Steve Williams
Ward Glyn: Cynghorydd Colin Matthews
Ward Eirias: Cynghorydd Bob Barton
Ward Colwyn: Cynghorydd Mark Jones

***Penderfynwyd, trwy bleidlais o fwyafrif, i benodi'r Aelodau canlynol i gynrychioli pob Ward ar y Grŵp Llywio Cynllun Cynefin newydd:***
***Ward Dinarth: Cynghorydd Jeff Pearson***
***Ward Rhos: Cynghorydd Hannah Fleet***
***Ward Rhiw: Cynghorydd Steve Williams***
***Ward Glyn: Cynghorydd Colin Matthews***
***Ward Eirias: Cynghorydd Bob Barton***
***Ward Colwyn: Cynghorydd Mark Jones***

**(iii)** ***Penderfynwyd rhoi awdurdod dirprwyol i'r Clerc i wahodd cynrychiolwyr dichonadwy o fudiadau lleol eraill i gyfarfod cychwynnol, i amlinellu bwriad y prosiect (gyda chymorth gan Shane Wetton) ac annog cynrychiolaeth ac ymrwymiad i'r Grŵp Llywio o'r gymuned ehangach.***

Darllenodd y Clerc rhestr o fudiadau yr awgrymwyd y dylid eu cynnwys yn y lle cyntaf.

***Fe benderfynwyd ymhellach i ofyn i'r Aelodau cysylltu â'r Clerc os ydynt yn gwybod am bobl neu fudiadau lleol eraill y dylid cael eu cynnwys ar y rhestr o wahoddedigion i'r cyfarfod cyntaf hwn.***

Fe nodwyd bod un Cyngor Cymuned yn Sir Ddinbych eisoes wedi dechrau ar y gwaith o baratoi Cynllun Cynefin ac efallai byddai cynrychiolydd yn barod i roi cyflwyniad i gyfarfod o'r Grŵp Llywio yn y dyfodol os gofynnir iddynt.

**c.** Gofynnwyd i'r Aelodau ystyried a chadarnhau argymhellion y Pwyllgorau fel maent yn ymddangos yn y Cofnodion canlynol:

**i** **Cofnod 182/18 – Clwb Syrffio Achub Bywydau Bae Colwyn:**

***Penderfynwyd anfon llythyr o gefnogaeth.***

**ii.** **Cofnod 192/18(d)(iii) – Polisi ar Dalu Costau Teithio i Aelodau:**

***Penderfynwyd mabwysiadu'r polisi canlynol parthed talu costau teithio am ddyletswyddau a gymeradwywyd, i ddod i rym yn ddi-oed: Bydd Aelodau yn cael eu talu am gostau teithio am ddyletswyddau a gymeradwywyd o naill ai'r cyfeiriad cymwys (h.y. y cyfeiriad a***

***ddefnyddiwyd i'w cymhwyso i sefyll i fod yn Gynghorydd) neu'r cyfeiriad cartref, pa un bynnag yw'r agosaf.***

**iii. Cofnod 192/18(d)(iii) – Cymdeithas Cynghorau Lleol Gogledd a Chanolbarth Cymru (CCLlGChC):**

***Penderfynwyd cadarnhau adnewyddu aelodaeth o Ebrill 2018 am gost o £80 (yn ogystal â'r costau o fynd i gyfarfodydd chwarterol).***

**iv Cofnod 198/18 - Gorymdaith Dydd Gŵyl Dewi:**

***Penderfynwyd cytuno i weithio mewn partneriaeth gyda BID Colwyn i barhau gyda'r digwyddiad blynyddol a sefydlwyd gan Ingrid Lewis (ar yr amod bod Bwrdd BID yn cytuno i hyn hefyd).***

**v Cofnod 200/18 – Cais i Efeillio:**

Cyflwynodd y Clerc gwybodaeth ychwanegol a roddwyd gerbron cyfarfod diweddar y Pwyllgor Amcanion Cyffredinol a Chynllunio, yn rhoi gwybodaeth fwy manwl am Diriogaeth Songololo.

***Penderfynwyd ymateb trwy ddweud, er bod y Cyngor yn gwerthfawrogi teimlad y cais ac nid oes unrhyw wrthwynebiad i'r Gymdeithas Gefeillio bresennol (neu unrhyw fudiad lleol arall) datblygu cysylltiadau cyfeillgarwch anffurfiol, ni ellir cefnogi gefeillio ffurfiol gyda Thiriogaeth Songololo yng Ngweriniaeth Ddemocrataidd y Congo.***

**vi. Cofnod 203/18(a) – Grantiau Bach:**

***Penderfynwyd cadarnhau argymhellion y Pwyllgor a chymeradwyo talu'r grantiau bach fel y maent yn ymddangos yn Atodiad B sydd gyda hwn.***

**ch.** ***Penderfynwyd nodi holl benderfyniadau'r Pwyllgorau fel y maent yn ymddangos yn y Cofnodion.***

**222/18 <u>Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC):</u>**

**a.** Cyflwynodd y Clerc copi o'r Siartr Rannol a ddatblygwyd gan GBSC a'r Cynghorau Tref a Chymuned yng Nghonwy nifer o flynyddoedd yn ôl a gofynnodd i'r Aelodau ystyried os yw hwn yn dal i fod yn berthnasol ac / neu a oes angen ei ddiweddaru / diwygio.

***Penderfynwyd ymateb trwy gadarnhau bod y Cyngor hwn o'r farn bod y mwyafrif o gynnwys y Siartr yn parhau i fod yn berthnasol, yn amodol ar yr ychwanegiadau / newidiadau canlynol:***

***(i) Tudalen 7 - Cynllunio: Argymell bod cyfarfodydd cydlynu rheolaidd yn cael eu cynnal o leiaf unwaith y flwyddyn er mwyn i Gynghorwyr Tref a Chymuned cael y cyfle i gwrdd â swyddogion cynllunio lleol a rhannu gwybodaeth ag ymarferiad gorau.***
***Ystyried a ddylai'r hyfforddiant cynllunio a rhoddi i Gynghorwyr Sir cael ei agor i fyny i aelodau Cynghorau Tref a Chymuned.***

***(ii) Tudalen 8 – Bod Cynghorau Tref a Chymuned yn cael gwybod am enw a manylion cyswllt y Swyddog Monitro.***
***(iii) Adran 13: Bod yr Adran hon yn cael ei ddisodli trwy gynnwys diweddariad yn cyfeirio at Flaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol a nodau allweddol Cynllun Llesiant yr Ardal Leol.***

**b.** Rhoddodd y Clerc adroddiad byr ar lafar yn dilyn cyfarfod Grŵp Swyddogion Byw yn y Bae a gynhaliwyd ar 15fed Hydref 2018. Rhoddwyd diweddariad cyffredinol am nifer o brosiectau cyfredol yn cynnwys 7 Ffordd Abergele, y Pier, prosiect celf IMAGINE a strwythur y grŵp yn y dyfodol. Cafwyd cyflwyniad hefyd am Gynllun Buddsoddi Canol y Dref (CBCD), i gynnwys sefydlu tîm newydd o swyddogion y prosiect i gynnwys y Clerc a Swyddog BID.

Anfonwyd copi diweddar o GBCD i bob aelod trwy e-bost a chyfeiriodd sylw'r aelodau at nifer o flaenoriaethau cychwynnol allweddol, yn cynnwys cynlluniau i agor Ffordd yr Orsaf i drafnidiaeth, targedu nifer o eiddo allweddol ac ystyried dyfodol y Farchnad Stryd. Fe nodwyd bod Byw yn y Bae yn bwriadu cyflwyno cais am gyllid datblygu i Lywodraeth Cymru er mwyn cynnal astudiaeth fanwl o'r cynlluniau ar gyfer Ffordd yr Orsaf, yn cynnwys unrhyw effaith caiff hyn ar ganol y dref yn gyffredinol ac i baratoi dyluniad manwl ar gyfer gwelliannau i'r ffyrdd ac adnoddau cyhoeddus eraill. Cyflwynwyd cais am arian cyfatebol tuag at hwn (bydd angen 50%) i BID Colwyn a chaiff ei gyflwyno hefyd i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Polisi a Chyllid.

**223/18 Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (IRPW):**

Cyflwynodd y Clerc yr adroddiad terfynol (manwl) y Panel, ac fe nodwyd ei fod wedi cael ei gyflwyno i'r Gweinidog i gael ei ystyried.

Fe nodwyd mai dim ond pan ddaw ymgynghoriad ar unrhyw ddeddfwriaeth drafft ar ddyfodol llywodraeth leol yng Nghymru bydd cyfle i wneud sylw arno.

**224/18 Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru - Y Cyfryngau Cymdeithasol - Canllawiau i Gynghorwyr:**

Gofynnwyd i'r Aelodau nodi bod copi caled o'r canllawiau diweddaraf i gynghorwyr lleol ar gael gan y Clerc ar gais (fel y dosbarthwyd trwy e-bost ar 12fed Hydref).

**225/18 Gweithdy Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Gogledd Cymru:**

Fe nodwyd bydd y Maer a'r Clerc am fynychu gweithdy i Gynghorau Tref a Chymuned ar 30ain Tachwedd a byddant yn adrodd yn ôl, yn y man.

.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.25 p.m.

..........................................................Cadeirydd

**MINUTES OF A MEETING OF THE BAY OF COLWYN TOWN COUNCIL, HELD IN THE COUNCIL CHAMBER, TOWN HALL, RHIW ROAD, COLWYN BAY, AT 6.30 P.M. ON MONDAY 22ND OCTOBER 2018**

**PRESENT:** The Mayor, Cllr S Williams (Chairman)
Cllrs: Mrs G Baker; B Barton; N Bastow; C Brockley; Mrs H Fleet; D Howcroft; C Hughes; M A Jones; Mrs M Jones; A Kealey; A Khan; C Matthews; A Pearson; J Pearson; P Richards; M Tasker

**OFFICER:** Mrs C J Earley, Town Clerk

**IN ATTENDANCE:** District Inspector Julie Sheard, North Wales Police
County Councillors: C Carlisle; B Cossey; B Squire; R Parry

**90/11 Welcome and Apologies for Absence**:

The Mayor welcomed Members and guests to the meeting and apologies for absence were received from Cllrs: D Bradley; G Campbell; A Mason; H Meredith; M Pickard; K Swindon; M Worth

**91/11 Announcements:**

The Mayor congratulated all those who were involved in or supported the Colwyn in Bloom Committee following its recent achievement in winning a Gold for its RHS Britain in Bloom entry this year. It was noted that this was the first Gold award the town had received in the Britain in Bloom competition.

**92/11 Declarations of Interest**:

Members were reminded that they must declare the existence and nature of any personal and/or prejudicial interests. None were declared.

**93/11 Visitors to the Council:**

***a)*** The Mayor welcomed District Inspector Julie Sheard, NW Police, to the meeting to address the Council regarding crime statistics and local matters of concern. Insp Sheard thanked Members for the invitation to attend and gave a brief introduction covering her policing background. She referred to the significant changes in policing priorities over the past eight years, with a much greater focus now on tackling the increases in domestic violence, organised crime, hate crime, modern slavery and burglaries. Some of these crimes are much harder to identify and the Force also has much fewer resources compared to ten years ago. These have contributed to the reduction in the resources of the neighbourhood policing teams, to the extent that we now have just one CBM supported by a team of PCSOs to cover the Colwyn Bay area.

There is also a greater demand on the Force generally due to increases in drugs use/ mental health issues/vulnerable persons, which often present to the police and require signposting to relevant support. The majority of

crime is still carried out by a minority of people and rehabilitation institutions are not tackling long term vulnerabilities. Insp. Sheard concluded by saying that she is pleased to have the opportunity to share this information so that expectations can be managed: the neighbourhood policing teams cannot be as visible as they were ten years ago. Nonetheless, Colwyn Bay is still a great place to live and work.

A brief questions and answer session followed the presentation, with questions covering: the extent of the reductions in the neighbourhood police teams (there were 14 CBMs covering an area that included Mochdre and Llysfaen in 2010 and this is now reduced to 3, with one of these focussing on organised crime); speed of traffic on the A55; ways in which modern day slavery can be tackled (targeted approach, in conjunction with immigration service); request for more visible policing and dispersal of vulnerable people gathering in the town centre, as these may put off people from supporting our local businesses (assured this was on their radar and they will focus resources where they are needed most); why speed cameras are not used on the A55; positive outcomes seen when the police have been passed local intelligence; need to gather intelligence from a variety of sources before action can be taken; whether the police have adequate resources to respond to the increase in reporting of domestic violence.

Insp. Sheard was then thanked for attending and she retired from the meeting.

***b)*** **County Council Liaison:**

The Mayor welcomed the County Councillors to the meeting and Cllr B Cossey presented a report on the current financial pressures faced by Conwy CBC. This report covered the main sources of income and expenditure for the County Council and explained the impact that a reduction in the Welsh Government revenue support grant and increasing staff costs, due to annual staff pay awards, has on the annual budget. The County Council had begun preparing for a flat settlement from the Welsh Gov't for 2019/20, but has recently been informed that it will receive a net reduction of 1% (equivalent to a cut of £1.5m). A 5% increase in council tax bills raises approximately £3m, but the current deficit for 2019/20 is estimated at around £16.5m. In 2018/19, the Council has budgeted to use £3.28m of its reserves to achieve a balanced budget. They do not have sufficient reserves to allocate anything from reserves next year. The options left are to increase income (i.e council tax rises and/or charging for services) and/or reducing costs, i.e. by cutting services. There will inevitably have to be some service cuts to achieve a balanced budget and these are never popular – all services are precious to someone. Current discussions are focussing on cuts in budgets of 4% for social services and education and 7% for other services, such as ERF, together with an 11% increase in Council Tax.

Cllr Cossey finished his presentation with a reminder that the Town Council is a completely separate entity and, as such, it should not feel any pressure to take on delivery of services cut by CCBC if these do not fit with the Town Council's own priorities.

A brief question and answer session followed the presentation, with questions covering: whether the 1% cut is the same for all Counties in Wales (no – there are various elements included in the funding formula and some councils will be getting an increase); how much will be saved if the Council continues with plans to cut free transport for 16+ year olds (£420k, but young people receiving free school meals may still qualify for free transport).

The County Councillors were thanked for attending to present their report.

**94/11** **Minutes**:

*a)* ***Resolved to approve and sign, as a correct record, the minutes of the last meeting of the Council, held on 3rd September 2018.***

*b)* ***Resolved to receive a copy of the minutes of the following meetings:***

**i)** ***The General Purpose & Planning Committee held on 18th September 2018.***

**ii)** ***The Policy & Finance Committee held on 3rd October 2018 (Draft).***

**iii)** ***The General Purposes & Planning Committee held on 9th October 2018. (Draft)***

**95/11** **Matters Arising from Those Minutes:**

*a)* **Min. 165/18 – Informal Police Liaison**:

The Clerk gave a brief verbal report from the meeting held earlier this evening, which had been attended by Insp Julie Sheard and Neighbourhood Policing Sergeant Lee Openshaw. A discussion had taken place over how expectations could be managed and local councillors (and residents) might be able to meet their local police team members to discuss any issues of concern. It had been agreed by those present that this could best be achieved during the regular informal drop in sessions with the PCSOs that are held at regular intervals in each community (e.g. at coffee mornings in Rhos on Sea, at the library in Colwyn Bay, at events/coffee mornings in Upper Colwyn Bay Community Centre and at Old Colwyn Residents Association open meetings). It was noted that there had been seventeen such sessions taking place across the area since July.

***Resolved to request that details of the dates and locations of these sessions are shared with the Town Council as early as possible, so that local Members can attend if they need to and so that the Town Council can help to publicise them via our website.***

***Further resolved to request that the District Inspector continues to attend a full Council meeting at least annually to give a presentation on current area priorities / issues of concern.***

*b)* **Min. 151/18 and 167/18(b) : Action Plan Objective 8.1 - Place Plan**s

**i)** It was noted that the final Place Plan Toolkit has now been approved by CCBC (available on request from the Clerk).

**ii)** In order to commence working towards developing a Place Plan with the local community, members were asked to consider appointing members to begin to form a Place Plan 'Steering Group' (recommended by the General Purpose and Planning Committee to be one member per Ward). Nominations were sought by the Mayor for a representative for each Ward and the following nominations were received:
Dinarth Ward: Cllr Jeff Pearson
Rhos Ward: Cllr Glenys Baker and Cllr Hannah Fleet
Rhiw Ward: Cllr Steve Williams
Glyn Ward: Cllr Colin Matthews
Eirias Ward: Cllr Bob Barton
Colwyn Ward: Cllr Mark Jones

***Resolved, my a majority vote, to appoint the following members to represent each Ward on a new Place Plan Steering Group:***
***Dinarth Ward: Cllr Jeff Pearson***
***Rhos Ward: Cllr Hannah Fleet***
***Rhiw Ward: Cllr Steve Williams***
***Glyn Ward: Cllr Colin Matthews***
***Eirias Ward: Cllr Bob Barton***
***Colwyn Ward: Cllr Mark Jones***

**iii)*****Resolved to delegate authority to the Clerk to invite potential representatives from a number of other local organisations to an introductory meeting, to explain the purpose of the project (with assistance from Shane Wetton) and encourage wider community representation and involvement in the Steering Group.***

The Clerk read out a list of the initial organisations it had been suggested that she include.

***Further Resolved to request members contact the Clerk if they know of any other local people or organisations that they feel ought to be included on the invitation list for this initial meeting.***

It was noted that a community council in Denbighshire had begun working on developing a Place Plan and a representative may be willing to give a presentation at a future meeting of the Steering Group, if requested to do so.

***c)*** Members were asked to consider and endorse the recommendations of the Committees, as detailed in the following Minutes:

**i) Min. 182/18 – Colwyn Bay Surf Lifesaving Club:**

***Resolved to send a letter of support.***

**ii) Min. 192/18(d)(ii)- Policy on Payment of Travel Expenses to Members:**

Resolved to adopt the following policy regarding payment of travel expenses for approved duties, with immediate effect:
***Members will be reimbursed for travel for approved duties from either***

***their qualifying address (i.e. the address that they used to qualify to stand as a councillor) or their home address, whichever is closer.***

**iii) Min. 192/18(d)(iii) - N&MWALC:**

***Resolved to confirm the renewal of membership, with effect from April 2018, at a cost of £80 (plus costs for attendance at quarterly meetings).***

**iv) Min. 198/18 – St David's Day Parade:**

***Resolved to agree to work in partnership with Colwyn BID to continue the annual event set up by Ingrid Lewis (providing that the BID Board also agrees to this).***

**v) Min. 200/18 – Twinning Request:**

The Clerk submitted additional information tabled at the recent General Purpose & Planning Committee meeting giving more detailed information about the Songololo Territory.

***Resolved to respond to say that, whilst the Town Council appreciates the sentiment of the request and has no objection to the existing Twinning Association (or any other local organisation) developing informal links of friendship, it could not support a formal twinning with the Songololo Territory of the Democratic Republic of Congo.***

**vi) Min. 203/18(a) – Small Grants:**

***Resolved to endorse the recommendations of the Committee and approve payment of small grants, as detailed in Schedule 'B' to those minutes.***

***d) Resolved to note the resolutions of the Committees, as detailed in the Minutes.***

**96/11 <u>Conwy CBC:</u>**

***a)*** The Clerk submitted a copy of the Shared Charter developed between CCBC and the Town and Community Councils in Conwy several years ago and asked members to consider if this is still relevant and/or if it needs updating/revising.

***Resolved to respond to confirm that this Council believes that the majority of the Charter content is still relevant, subject to the following additions/amendments:***

**i)** ***Pg 7 – Planning: To recommend that regular liaison meetings take place at least annually to give an opportunity for Town & Community Councillors to meet with local planning officers and share information and best practice. To consider whether planning training delivered to County Councillors could/should be opened up to members of Community and Town Councils.***

ii) ***Pg 8: That T&CCs are notified of the name and contact details for the Monitoring Officer.***
iii) ***Section 13: That this section be replaced with updated content referencing the Corporate Plan Priorities and the Local Area Wellbeing Plan key objectives.***

***b)*** The Clerk gave a brief verbal report following a meeting of the Bay Life Officer Group on 15th October 2018. A general update had been given on a number of current projects, including 7 Abergele Road, the Pier, the IMAGINE arts project and the future structure of the group. A presentation had also been given on the Town Centre Investment Plan (TCIP), to include the setting up of a new Officer project team, to which the Clerk and BID Officer will be invited.

An updated copy of the TCIP had been circulated to all members by e-mail and the Clerk drew the attention of members to several key initial priorities, which include proposals for opening Station Road up to traffic, targeting of several key properties and considering the future of the street Market. It was noted that Bay Life intends to submit a bid for development funding to the Welsh Government to carry out a detailed study into proposals for Station Road, to include any impact this may have on the wider town centre, and the drawing up of detailed designs for highways and public realm improvements. A request for match funding towards this (50% will be required) had been submitted to Colwyn BID and would also be submitted to the next meeting of the Policy & Finance Committee.

**97/11 Independent Review of Town and Community Council Sector in Wales:**

The Clerk submitted the final (detailed) report of the Panel, which it was noted had now been submitted to the Minister for consideration.

It was noted that there would be an opportunity to comment only when any draft legislation on the future of local government in Wales is consulted upon.

**98/11 WLGA - Social Media, A Guide for Councillors:**

Members were asked to note that a hard copy of the updated guidance for local councillors is available on request from the Clerk (as circulated by e-mail on 12th October).

**99/11 North Wales PSBs Workshop:**

It was noted that the Mayor and the Clerk will be attending a workshop for Town & Community Councils on 30th November and will report back in due course.

The meeting closed at 8:25 p.m.

…………………….. Chairman.